

Y Comisiwn Penodiadau Barnwrol Cynllun Iaith Gymraeg

**Adroddiad Monitro Blynyddol 2018 - 19 i Gomisiynydd y
Gymraeg**

Cynnwys

1. Cyflwyniad	2
2. Cefndir	3
3. Recriwtio	4
4. Monitro'r Cynllun Iaith Gymraeg	7
5. Y Pwyllgor Materion Cymreig	10

1. Cyflwyniad

Dyma'r trydydd Adroddiad Monitro Blynyddol ar y Cynllun Iaith Gymraeg a baratowyd gan y Comisiwn Penodiadau Barnwrol (JAC), ac mae'n cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019. Mae'n dangos y cynnydd a wnaed gennym i roi ein cynllun ar waith ers iddo gael ei gymeradwyo gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ym mis Mai 2016. Mae'r cynllun ar gael ar wefan y JAC: <https://www.judicialappointments.gov.uk/welsh-language-scheme> and <https://www.judicialappointments.gov.uk/cynllun-iaith-gymraeg>

Cyn hyn, roedd y JAC yn rhan o Gynllun Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Fe wnaethom ddatblygu'r cynllun arbenigol hwn yn wirfoddol er mwyn nodi'n well sut rydym yn trin y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'n egluro sut y gall ymgeiswyr ar gyfer penodiadau barnwrol gyfathrebu â'r JAC yn Gymraeg neu yn Saesneg, yn ôl eu dewis personol.

Mae'r cynllun yn amlinellu sut rydym yn gweithredu'r egwyddor yn Adran 5 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, sef y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru. Dylid dehongli cwmpas ein hymrwymadau fel bod yn berthnasol i'r gweithgareddau a'r gwasanaethau recriwtio hynny yng Nghymru y gallwn eu rheoli neu ddylanwadu arnynt.

2. Cefndir

Mae'r JAC yn gorff cyhoeddus anadrannol gweithredol sy'n cael ei noddi gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Rydym yn dewis ymgeiswyr ar gyfer swyddi barnwrol mewn llysoedd a thribiwnlysoedd yng Nghymru a Lloegr, ac ar gyfer rhai tribiwnlysoedd gydag awdurdodaeth ledled y DU. Bydd ymgeiswyr yn cael eu dewis yn ôl teilyngdod, drwy gystadleuaeth deg ac agored, ac rydym wedi ymrwymo i ddenu ymgeiswyr o feysydd mor eang â phosib. Rydym yn gweithio gydag amrywiaeth o sefydliadau i hyrwyddo swyddi gwag i ymgeiswyr cymwys.

Cafodd y Cynllun Iaith Gymraeg drafft ei gymeradwyo gan Fwrdd Comisiynu'r JAC ym mis Medi 2015, ac yna aethom ati i ymgynghori â'r cyhoedd. Aeth yr ymgynghoriad yn fyw ar 9 Hydref 2015, a chafodd ei gyhoeddi'n ffurfiol yng Nghynhadledd Gyfreithiol Cymru 2015 gan gyn-Gadeirydd y JAC Christopher Stephens, a chyn-Gomisiynydd y JAC â chyfrifoldeb dros Gymru, y ddiweddar Athro Noel Lloyd. Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn dangos cefnogaeth gref ar gyfer Cynllun Iaith Gymraeg penodol i'r JAC. Roedd llawer o ymatebion yn cynnig gwelliannau i'r drafft ac awgrymiadau ar gyfer ei fireinio, ac fe wnaeth ymateb y JAC i'r ymgynghoriad egluro sut roedd yr ymatebion wedi dylanwadu ar y polisi.

3. Recriwtio

Sefydliad yn Llundain yw'r JAC gydag oddeutu 73 aelod o staff. Nid oes ganddo bresenoldeb cyflenwi parhaol yng Nghymru. Nid yw Cynllun Iaith Gymraeg y JAC yn cynnwys recriwtio staff y JAC gan nad oes unrhyw ofynion o ran yr iaith Gymraeg wedi'u nodi ar gyfer staff.

Pan fydd angen sgiliau iaith Gymraeg ar gyfer penodiad barnwrol, mae gennym ddau banelydd sy'n siarad Cymraeg yn ein cadre o aelodau panel llewg sy'n eistedd ar y paneli ymarferion dethol. Mae aelodau o'r farnwriaeth sy'n siarad Cymraeg yn ymuno â nhw ac yn cael eu dyrannu i'r JAC yn ôl yr angen i eistedd ar baneli dethol. Mae Comisiynydd y JAC â chyfrifoldeb dros Gymru neu'r Comisiynydd Aseiniedig i'r ymarfer yn sicrhau ansawdd ymarferion dethol lle mae angen sgiliau Cymraeg.

Cwestiynau am feini prawf Cymreig

Mae maen prawf dethol ychwanegol yn berthnasol ar gyfer swyddi gwag yng Nghymru. Cymeradwyir y maen prawf gan yr Arglwydd Ganghellor ac mae'n nodi:

"Bydd yn rhaid i ymgeiswyr am swyddi yng Nghymru feddu ar ddealltwriaeth o sut y gweinyddir cyfiawnder yng Nghymru, gan gynnwys deddfwriaeth sy'n berthnasol i Gymru a threfniadau datganoli yng Nghymru, neu'r gallu i feithrin y ddealltwriaeth hon."

Pan fydd ymgeiswyr wedi ymgeisio am swyddi yng Nghymru, gofynnir nifer o gwestiynau sy'n benodol i bob ymarfer yn ystod y cam cyfweld, gydag ymgeiswyr yn cael eu hasesu ar sail eu gwybodaeth am faterion sy'n berthnasol i Gymru.

Ymarferion dethol 2018-19

Mae'r JAC yn adrodd yn flynyddol ar nifer yr ymarferion dethol a gwblheir o fewn blwyddyn adrodd.¹ Cafodd y cynllun iaith Gymraeg ei roi ar waith ym mis Mai 2016 a chafodd ei gymhwyso ar gyfer ymarferion dethol a aeth i'r camau cynllunio o'r adeg honno. Mae'r adran hon yn manylu ar ymarferion dethol a gafodd eu cwblhau a'u hadrodd rhwng 1 Ebrill 2018–31 Mawrth 2019 er mwyn rhoi trosolwg o'r broses recriwtio barnwrol yng Nghymru.

Cwblhawyd ac adroddwyd ar dri ar hugain o ymarferion dethol yn 2018–19. Mae'r maes busnes a'r farnwriaeth yn nodi gofynion o ran y Gymraeg ar gyfer swyddi gwag, ac mae'r JAC yn asesu'r gofynion hyn. Mae'r JAC yn parhau i gynnal ymarferion dethol pan fydd yr iaith Gymraeg wedi'i nodi fel gofyniad ar gyfer un swydd neu fwy.

O'r ymarferion hyn, roedd yr iaith Gymraeg yn ofyniad hanfodol ar gyfer un swydd yn yr ymarfer dethol ar gyfer Barnwr Cyflogedig yn y Tribiwnlys Cyflogaeth. Profwyd cymhwysedd iaith yn achos yr ymgeiswyr hynny a ymgeisiodd am swydd Gymraeg, yn ogystal â gwybodaeth yr ymgeiswyr am weinyddu cyfiawnder yng Nghymru. Lansiodd yr ymarfer cenedlaethol ar 18 Mehefin 2018 gyda chyfanswm o 59 swydd wag, gan gynnwys swyddi

¹ <https://www.judicialappointments.gov.uk/jac-annual-reports>

Ile'r oedd angen gwybodaeth am weinyddu cyfiawnder yng Nghymru ac un a oedd yn gofyn am gymhwysedd yn y Gymraeg. Argymhellwyd bod saith ymgeisydd yn addas i'w penodi yng Nghymru ond yn anffodus nid oedd yr un ohonynt yn bodloni gofyniad y Gymraeg.

Roedd yr iaith Gymraeg (darllen ac ysgrifennu) yn ofyniad hanfodol ar gyfer 4 swydd yn yr ymarfer dethol ar gyfer Dirprwy Farnwr Rhanbarth. Profwyd cymhwysedd iaith yn achos yr ymgeiswyr hynny a ymgeisiodd am swyddi iaith Gymraeg, yn ogystal â gwybodaeth yr ymgeiswyr am weinyddu cyfiawnder yng Nghymru. Lansiwyd yr ymarfer cenedlaethol ar 1 Mawrth 2018 gyda 303 swydd wag; roedd 4 swydd yn gofyn am sgiliau Cymraeg a chwestiynau Cymraeg. Argymhellwyd tri ymgeisydd ar gyfer swyddi Cymraeg.

Roedd yr iaith Gymraeg yn ofyniad hanfodol ar gyfer 2 swydd yn yr ymarfer dethol ar gyfer Cofiadur yn 2018. Profwyd cymhwysedd iaith yn achos yr ymgeiswyr hynny a ymgeisiodd am swyddi iaith Gymraeg, yn ogystal â gwybodaeth yr ymgeiswyr am weinyddu cyfiawnder yng Nghymru. Lansiwyd yr ymarfer cenedlaethol ar 19 Mehefin 2018 gyda chyfanswm o 160 swydd wag. Argymhellwyd un ymgeisydd ar gyfer swydd Gymraeg.

Roedd yr ymarferion dethol canlynol yn nodi swyddi gwag yng Nghymru lle nad oedd gofynion o ran yr iaith Gymraeg, ond profwyd gwybodaeth yr ymgeiswyr am weinyddu cyfiawnder yng Nghymru:

Barnwyr sy'n derbyn ffi yn y Tribiwnlys Haen Gyntaf. Lansiwyd yr ymarfer cenedlaethol hwn ar 31 Ionawr 2018 gyda chyfanswm o 250 swydd wag. Llwyddodd saith ar hugain o ymgeiswyr i fodloni'r gofyniad am swyddi Cymraeg.

Barnwr Cylchdaith. Lansiwyd yr ymarfer cenedlaethol hwn ar 15 Mawrth 2018 gyda chyfanswm o 94 swydd wag, gyda 3 ohonynt yn swyddi yng Nghymru. Argymhellwyd tri ymgeisydd ar gyfer swyddi Cymraeg.

Roedd yr ymarferion dethol canlynol yn nodi swyddi gwag yng Nghymru lle nad oedd ganddynt ofynion o ran yr iaith Gymraeg, ac ni wnaethant profi gwybodaeth yr ymgeiswyr am weinyddu cyfiawnder yng Nghymru:

Aelodau Meddygol sy'n derbyn ffi yn y Tribiwnlys Haen Gyntaf, y Siambr Iechyd, Addysg a Gofal Cymdeithasol (Lloegr) a Thribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru (MHRT). Lansiwyd yr ymarfer hwn ar 23 Ionawr 2018 gyda hyd at gyfanswm o 80 swydd wag ar gyfer Aelod Meddygol sy'n derbyn ffi yn y Tribiwnlys Haen Gyntaf, y Siambr Iechyd, Addysg a Gofal Cymdeithasol, Iechyd Meddwl (Lloegr); a hyd at gyfanswm o 10 swydd wag ar gyfer Aelod Meddygol sy'n derbyn ffi yn Nhribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru (MHRT Cymru). Roedd Comisiynydd y JAC sy'n gyfrifol am Gymru o'r farn mai gofyniad y rôl oedd arbenigedd meddygol ac felly ni fyddai profi gwybodaeth yr ymgeiswyr am weinyddu cyfiawnder yng Nghymru yn ychwanegu unrhyw werth pellach i'r broses ddethol. Argymhellwyd pymtheg ymgeisydd i'w penodi i MHRT Cymru ar unwaith. Argymhellwyd pedwar ymgeisydd ar gyfer HESC ac MHRT (Cymru).

Mae Adran 83 Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn caniatáu i Lywodraeth Cymru ofyn am gymorth gan gyrrff cyhoeddus eraill. Fe wnaeth y JAC gynorthwyo Llywodraeth Cymru gyda'r ymarferion canlynol:

Aelodau Materion Draenio sy'n derbyn Ffi, Tribiwnlys Tir Amaethyddol, Cymru. Lansiwyd yr ymarfer hwn ar 28 Chwefror 2018 gyda chyfanswm o 5 swydd wag. Gan fod hyn yn rôl ddi-gyfreithiol arbenigol iawn, penderfynodd y JAC na fyddai ychwanegu'r broses

o brofi gwybodaeth ymgeiswyr am weinyddu cyfiawnder yng Nghymru yn ychwanegu gwerth pellach i'r broses ddethol. Argymhellwyd dau ymgeisydd am benodiad ar unwaith.

4. Monitro'r Cynllun Iaith Gymraeg

Ymarferion dethol

Mae Cynllun Iaith Gymraeg y JAC yn berthnasol i ymarferion dethol gyda swyddi yng Nghymru a aeth i gamau cynllunio ar neu ar ôl Mai 2016. Dim ond mewn achosion eithriadol y bydd y JAC yn hysbysebu'n allanol. Roedd adran 'hysbysebu' ein Cynllun Iaith Gymraeg yn amlinellu darpariaethau ar gyfer unrhyw achosion lle defnyddiwyd hysbysebu allanol. Ni ddefnyddiwyd unrhyw hysbysebu allanol ar gyfer ymarferion dethol yng Nghymru yn ystod 2018-19.

Yn ystod y cyfnod 2018-19, gwnaethom gyhoeddi cyfieithiadau Cymraeg o ddeunydd ymarferion dethol yn yr ymarferion canlynol:

- Aelodau Meddygol sy'n derbyn Ffi yn y Tribiwnlys Haen Gyntaf, y Siambr Iechyd, Addysg a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Meddwl); ac Aelodau Meddygol sy'n derbyn Ffi yn y Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru. Lansiodd 23 Ionawr 2018
- Dirprwy Farnwr Rhanbarth. Lansiodd 1 Mawrth 2018
- Barnwr Cylchdaith. Lansiodd 15 Mawrth 2018
- Barnwr Cyflogedig y Tribiwnlys Cyflogaeth. Lansiodd 18 Mehefin 2018
- Cofiadur. Lansiodd 19 Mehefin 2018

Mae Cynllun Iaith Gymraeg y JAC yn amlinellu y byddwn yn hysbysebu swyddi sy'n gofyn am weithio yng Nghymru yn ddwyieithog ar gyfryngau ar-lein y JAC, fodd bynnag yn ystod y cyfnod hwn roedd un ymarfer dethol gyda swyddi yng Nghymru a lansiodd heb hysbyseb iaith Gymraeg: Aelodau Materion Draenio sy'n derbyn Ffi, Tribiwnlys Tir Amaethyddol, Cymru. Yn anffodus, arweiniodd gwall gweinyddol at y fersiwn a gyfieithwyd yn cael ei methu. Fodd bynnag, ymgysylltodd y tîm ymarferion dethol â Llywodraeth Cymru'n barhaus ar ffurf Uned Tribiwnlys Cymru a'r Barnwr Arweiniol a deallwn fod y rolau wedi'u hysbysebu'n fewnol ar lafar.

Cymerwyd camau i gynyddu pwysigrwydd cydymffurfio â Chynllun Iaith Gymraeg y JAC gyda sesiynau hyfforddi gloywi ar gyfer staff.

Cwynion

Ni chafodd y JAC unrhyw gwynion ffurfiol yn uniongyrchol yn ymwneud â'r Cynllun Iaith Gymraeg.

Fodd bynnag, fe wnaeth Uned Tribiwnlys Cymru (WTU) hysbysu'r JAC am gŵyn a wnaed i Gomisiynydd y Gymraeg ynghylch diffyg cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.

Roedd y gŵyn yn ymwneud â delio ag ymarfer recriwtio gan Uned Tribiwnlys Cymru a'r ymateb a gafwyd oddi wrth y JAC, gan ymgeisydd, i anfon e-bost yn Gymraeg. Yn unol â'r canllawiau newydd a gyhoeddwyd gan Uned Tribiwnlys Cymru, mae'r JAC bellach wedi diwygio ei ganllawiau ar gyfer staff i godi ymwybyddiaeth o Gynllun Iaith Gymraeg y JAC.

Cynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu

Bydd y safonau adrodd a sefydlwyd yn flaenorol ar gyfer Cynllun Iaith Gymraeg y JAC yn parhau'r un fath yn ystod 2019-20: argaeledd y Cynllun; cyngor a chyfarwyddyd; galluoedd digidol; polisiau newydd a diwygiedig a monitro ac adolygu.

Mae diweddariadau i'r cynllun gweithredu yn ystod 2018–19 wedi'u nodi mewn ffont trwm isod.

Thema a chyfeirnod	Gweithgaredd	Dyddiad Targed	Cynnydd	Statws
Argaeledd	Cyhoeddi'r Cynllun ar wefan a mewnrwyd y JAC	Mawrth 2016	Ymgynghoriad i agor ym mis Hydref 2015 a chau ym mis Rhagfyr 2015, er mwyn i'r JAC ymateb ym mis Mawrth 2016	Wedi cwblhau. Cyhoeddiad wedi'i ohirio gan y cyfnod cyn etholiad ar gyfer etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2016, a'i gyhoeddi ar 23 Mai 2016.
Cyngor a chyfarwyddyd	Datblygu canllaw mewnol i gyd-fynd â'r polisi, gan gynnwys asesu sgiliau iaith a gwybodaeth am wahaniaethau yn y gyfraith, trefniadau datganoli ac ati.	Cyhoeddiad cychwynnol mis Mawrth 2016. Adolygiad o ddogfennau polisi perthnasol yn parhau	Wedi cwblhau Parhaus	Wedi cwblhau – canllawiau ar gael i'r holl staff o fis Mawrth 2016 Cynhaliwyd sesiwn hyfforddi ar gyfer staff gweithredol ym mis Ebrill 2016 cyn gweithredu. Cynhaliwyd sesiynau hyfforddi gloywi hefyd yn ystod y cyfnod 2018-19
Galluoedd digidol	Datblygu System Recriwtio Penodiadau Barnwrol (JARS) i gynnwys ffurflen gais ar-lein Gymraeg	Parhaus	Wedi'i ohirio	Mae'r JAC yn gweithio tuag at weithredu platform digidol newydd ar hyn o bryd. Ystyrir argaeledd ffurflenni cais yn y Gymraeg fel rhan o'r gwaith hwn.
Polisiâu newydd a diwygiedig	Ystyried effaith y polisiâu newydd a diwygiedig ar y Cynllun Iaith Gymraeg	Parhaus	Bydd y broses o weithredu hyn yn cael ei monitro'n barhaus	Parhaus. Mae ymgeiswyr bellach yn gallu darparu unrhyw adran naratif mewn Prawf Cymhwyso yn Gymraeg, a gyfieithir wedyn.
Monitro ac adolygu	Paratoi Adroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer Comisiynydd y Gymraeg a fydd ar gael i Fwrdd ac Awdurdod Gweithredol y Comisiwn; Cydlynwyr Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Nawdd y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Barnwr Cyswllt Cymru	Blynyddol		Wedi cwblhau: Adroddiad Monitro Blynyddol 2016–17 cyhoeddwyd Hydref 2017 Adroddiad Monitro Blynyddol 2017–18 cyhoeddwyd Tachwedd 2018 Adroddiad Monitro Blynyddol 2018–19 cyhoeddwyd Rhagfyr 2019

5. Y Pwyllgor Materion Cymreig

Mae'r Pwyllgor Materion Cymreig yn is-bwyllgor Bwrdd Comisiynu'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol. Cadeiriwyd y Pwyllgor gan y diweddar Athro Noel Lloyd yn ystod y cyfnod hwn gydag aelodau Pwyllgor, Comisiynydd (barnwrol) y JAC Mrs Ustus Philippa Whipple a Chomisiynydd y JAC Brie Stevens-Hoare CF.

Ffurfiwyd y Pwyllgor yn dilyn cyfarfod rhwng Prif Weinidog Cymru a Chadeirydd y JAC, y Gwir Anrhydeddus Athro yr Arglwydd Ajay Kakkar, ynghyd â'r Athro Noel Lloyd. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Pwyllgor Materion Cymreig ar 9 Mawrth 2017, ac mae'r Pwyllgor yn eistedd bob deufis.

Prif bwrpas y Pwyllgor yw monitro effaith bosibl datganoli yng Nghymru ar y broses benodi ar gyfer swyddi barnwrol ledled Cymru a Lloegr, ac i sicrhau bod y Comisiwn yn ymwybodol o anghenion Cymru.

Yn ystod y flwyddyn adrodd, mae'r Pwyllgor wedi:

- adnewyddu'r trefniant rhwng y JAC a Llywodraeth Cymru i ddarparu ymarferion dethol ar gyfer Gweinidogion Cymru. Bydd y cytundeb yn rhedeg tan fis Ebrill 2023
- croesawu Syr Wyn Williams, Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru i gyfarfod Pwyllgor Materion Cymreig
- parhau i fonitro datblygiadau Pwyllgor Hyfforddi Cymru i sicrhau bod profion JAC ar wybodaeth Gymreig yn ystyried gwaith y Coleg Barnwrol wrth ddelio â goblygiadau hyfforddi deddfwriaeth ddatganoledig
- monitro cyflawni ymarferion dethol yng Nghymru

Mae Pwyllgor Materion Cymreig wedi ymateb ar ran y JAC i'r ymgynghoriadau canlynol a allai effeithio ar dirwedd gyfreithiol Cymru:

- Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Gyngor Cyfraith Cymru a Chylch Gorchwyl
- Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Fil Deddfwriaeth (Cymru) Drafft

Yr Athro Noel Lloyd

Gyda thristwch mawr, cyhoeddodd y JAC farwolaeth yr Athro Noel Lloyd, Comisiynydd y JAC â chyfrifoldeb dros Gymru a Chadeirydd Pwyllgor Materion Cymreig y JAC, a fu farw ym Mehefin 2019. Roedd Noel yn frwdfrydig am hyrwyddo'r farnwriaeth a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru, gan sefydlu Cynllun Iaith Gymraeg y JAC, asesiadau dethol Cymraeg a sefydlu Pwyllgor Materion Cymreig y JAC.